



Llên Natur

www.llennatur.com

Gwefan i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru

Ychwanegwch ddeunydd
i
llennatur@yahoo.co.uk

Golygydd: Duncan Brown:
Cysodi: Ifor Williams.



Llun: Ifor a Siân Williams

Cerrig Arysgrifennedig Yng Nghymru tud 4

BACO EIFION

Pigion o Ddyddiadur John Williams, Nyth Dryw, Chwilog 1913 yn sôn am dyfu baco (Baco Eifion)

1913

- 1 Ionawr *carry and bulking tobacco... shooting 3 pheasants 1 pigeon 1 snipe*
- 2 Ionawr *1/2 [hanner diwrnod?] carry and bulking tobacco 1/2 wheeling manure on rubarb*
- 8 Chwefror *1/2 hanging tobacco*
- 13 Chwefror *planting tobacco at Cae Helyg...*
- 16 Mai *1/2 planting tobacco at Cae Helyg..*
- 22 Mai *3/4 planting tobacco 1/4 garden.*
- 24 a 26 Mai *1/2 planting tobacco Cae Tyddyn Bach..*
- 27 Mai *1/4 planting tobacco .*
- 5 Mehefin *planting tobacco.*
- 16-20 Meh. *planting hoeing tobacco.*
- 21 Mehefin *planting hoeing tobacco. Finish planting the last half acre of barley from Ireland*
- 23 Mehefin *1/2 hoeing tobacco*
- 24 Mehefin *1/2 hoeing tobacco at Cae Helyg 1doz cartridges from Rupert.*
- 29 Medi *1/2 cutting tobacco Cae Tyddyn and spears Cae Helyg .*
- 4 Hydref *finish carry tobacco & spearing for Cae Ffridd.*
- 11 Hydref *threading tobacco leaf*
- 26 Tachwedd *carrying fire [?]weed for tobacco.*
- 11-13 Rhag. *tobacco work.*

(Gyda diolch i Archifdy Gwynedd)

Roedd gan John Williams ddau gae y tyfai faco ynddynt, sef Cae Tyddyn Bach a Chae'r Helyg. Awgryma'r ail mai tir gwlyb yr hoffai i dyfu. Fe'i plannai rhwng Chwefror a

dechrau Mehefin gan hofio rhag chwyn wrth fynd. Mis Medi oedd tymor y cynhaeaf. Mae'n defnyddio tri gair arall i ddisgrifio'r broses o'i baratoi ar gyfer y farchnad - yn eu trefn, *bulking*, *threading*, a *hanging*. Oes gan unrhyw un gof o'r diwydiant hwn i esbonio'r broses yn fwy manwl? A oedd baco ar gyfer gwaith *snisin* yn Llanerchymedd yn cael ei dyfu ar yr Ynys?

O Ddyddiadur Robert Buckley, Dronwy, Ynys Môn

13 Gorffennaf 1633 *J set cu H: p: to Camvon, J pd for sithe 2s 8d, we dranke so well that we lost the boat, & had but a lodging with the snails, our horses were almost starved at Abermenay*

Mi es gyda H. i [ffair] Gaernarfon. Telais 2s 8d am gryman. Buom yn yfed mor dda nes i ni goll'i'r cwch, a bu'n rhaid treulio'r noson gyda'r malwod. Bu ein ceffylau bron a llwgu yn Abermenai.

Yr oedd y fferi a ddefnyddient yn rhedeg rhwng Abermenai, ger Niwbwrch a Chaernarfon. Dyma un ffordd o ddweud iddynt orfod cysgu yn eu diod ym môn clawdd!

Trafodion Cymdeithas Hynafiaethau Môn 1937

Pigion Ebrill 2008 gwefan tywydd www.llansadwrn-wx.com
The salt tolerant ivy-leaved scurvy grass Cochlearia danica [gweler rhifyn 4] was just coming into flower along the A5025 Menai Bridge to Pentraeth road; it had plenty of salt put on during the winter!

More cutting of flowering gorse along the A55 near the Britannia Bridge has been taking place. The need for cutting here seems obscure to me and anyway was being done out of season (after the end of March) when birds have started to nest.


Hela Geiriau

Beth sydd gan yr enwau Berkin a Nysgian yn gyffredin ar wahân i'r ffaith eu bod yn enwau llafar ar ffermydd cyfagos ger y môr ym mhlwyf Llanystumdwy? Talfyriad llafar o Abercain yw'r cyntaf, a'r ail yn dalfyriad o Ynysgain. Y llinyn arian sydd yn eu clymu yw enw'r Afon Gain sydd yn rhedeg - rhygnu erbyn heddiw - rhyngddynt. Heddiw nid yw hon ond megis ffos ddinod nad yw prin hyd yn oed yn teilyngu ei henw ar fap, ond mae enwau'r ffermydd yn awgrymu afon llawer mwy sylweddol ar un adeg. Roedd yn afon a oedd nid yn unig yn ddigon mawr i gael aber gwerth ei halen, ond yn ddigon mawr hefyd i ynysu'r tir cyfagos, efallai ar y llanw yn unig. Yr afonig ddbwys hon yw terfyn y plwyf hyd heddiw.

I'r gorllewin o'r Gain, ac ar ôl ymlwybro trwy bentref Lloyd George, mae'r Ddwyfor yn ymuno a'i chymar, y Ddwyfach. Y tro hegr a gymer i'r dwyrain, wrth gymer y ddwy afon yma, yw'r "ystum" yn Llan-ystum-dwy. Dengys map Saxton 1578 y Ddwyfor a'r Ddwyfach yn cyrraedd y môr trwy aberoedd cwbl ar wahân heb unrhyw argoel o dro trawiadol yng nghwrs y naill na'r llall. Heddiw, ar ôl cymryd y tro hwnnw, maent yn rhannu sianel am filltir olaf eu taith. Cwrs naturiol y Ddwyfach dybiwn i fyddai heibio i fferm Glanllynau a'r Domen Fawr ganoloesol.

Yn fwy dyrys, geilw Saxton y Ddwyfach yn *Maye fl[uvium]*., sef yr Afon Mai mae'n debyg. Beth bynnag oedd ei reswm wrth ei labelu felly, nid o'r lleuad y daeth yr enw ac ni allwn ei ddiystyru. Un ystyr i "mai" yw "bai" neu dro oddi ar y llwybr cul i'r dde neu'r aswy - gwyriad megis, un hegr hefyd mewn ambell fan fel yn achos yr Afon Gwyr-fai yn ardal Y Waunfawr.

Mae'r mapiau degwm dyddiedig tua 1840 yn cronico hen enwau caeau yn y cyffiniau hyn. Roedd enw'r cae sydd union gyferbyn a chymer y Ddwyfor a'r Ddwyfach yn tystio i bresenoldeb, rhyw oes cyn hynny, flodyn a elwir heddiw yn Gribau San Ffraid (*petony*). Mae'r enw yn arwydd o ddwyfoldeb y planhigyn hwn yn y gorfennol. Union enw'r cae yw "Cae Bryn Dwyfog" a dwyfog oedd hen enw ar y planhigyn hwn.



Angylion Pedr yn mynd o nerth i nerth



Mae cyfnod Gŵyl Sant Pedr yn rhoi digon o esgus i sôn am hyn un o deulu'r adar drycin yn ystod yr ugeinfed ganrif. Enw arall ar y teulu yw'r "pedrynnod" (*petrels*) sydd yn cyfeirio at eu gallu i hofran fodfeddi uwchben y tonnau wrth hel eu tamaid ar y môr mawr. Mae'n tynnu cymhariaeth â Phedr a'i allu yntau, unigryw ymhlith yr Apostolion, o gerdded ar y dŵr. Daw'r enw Saesneg *fulmar* yn wreiddiol o air y Llychlynwyr *foul-mar*, a fenthycwyd yn ddiweddarach gan bobl Ynysydd Hiort neu St. Kilda a siarada'r Aeleg.. Gwylan ddrewllyd oedd ystyr fulmar ond nid gwylan mohoni - yn wir, mae'n perthyn yn agosach i albatros nac i wylan.

Wrth i chi fynd am dro o gwmpas clogwyni môr Cymru, edrychwch am "wylan" ychydig yn fwy gosgeiddig, ychydig yn fwy hyderus na'r rhelyw wrth iddi chwarae'n ddeheuig ar yr awelon. Chwiliwch am un gwynnach na gwyn ag iddi adenydd, ar led, fel bwa heb blygiad na gwriad o un pen blaen i'r llall fel petai hi'n gwisgo'i chôt yn syth o'r wardrob heb dynnu'r cambren! Os cewch olwg agosach, mi welwch ei llygad du, a'i phig wedi ei wneud fel petai o ddarnau jig-so nad ydynt prin yn ffitio i'w gilydd. Dyna i chi bedryn y graig.

Dros o leiaf bedair canrif, ac am gyfnod llawer hwy, hyd orau y gwyddom, conglaen economi pobl Ynysydd Hiort oedd y pedryn. Roedd y diwylliant ynghlwm wrtho yn unigryw gan nad oedd yr un boblogaeth arall o'r adar hyn i bob pwrpas yn bodoli yng ngogledd yr Iwerydd tan ail hanner y 19eg ganrif. Ar raffau y cafodd yr adar eu cynaeafu oddi ar y clogwyni gan yr ynyswyr, a hynny yn eu miloedd. Disgrifiodd Martin Martin, croniclewr yr ardal yn ei *A Description of the Western Isles of Scotland* tua 1695 fod "gan y gymuned ddwy raff bedwar gwrhyd (*fathom*) ar hugain o hyd... dringai'r dynion i lawr a mawr oedd y cynhaeaf o wyau a chyrrff a ddeuai i'w rhan". Wrth ori eu hunig wy ar eu nythfa serth, cyfogai - na, saethai - yr adar gynnwys drewllyd eu 'stumogau at y rhai a ddeuai oddi uchod ar y rhaffau i'w casglu. Dychmygwch y drewdod ar grysau a throwseri wrth i'r hogiau noswyllo.

Daeth y diwydiant hynafol, a'r diwylliant ynghlwm wrtho, i ben ar 30 Awst 1930 gyda'r fudfa olaf a orfodwyd ar y boblogaeth gan y Llywodraeth Brydeinig "er ei lles". Stori arall yw honno. Ond yn yr un cyfnod digwyddodd ddeiaspora (o fath) i'r pedrynnod hefyd. Tua 1878, am resymau nad ydynt yn gwbl hysbys hyd heddiw, dechreuodd yr adar nythu ar ynysydd eraill gan ymledu nes iddynt gyrraedd Ynys Manaw yn 1930. Cafwyd nyth cyntaf Cymru yn 1945 ar Ben y Gogarth, Llandudno, a chofiaf fy hunan y cyffro ddiwedd y 1970au pan gafwyd y parau cyntaf yn nythu ar lethrau'r Friog yn Sir Feirionnydd.


Sut daeth y maen i'r wal?

Yn gynharach eleni, ar hap, daeth cymydog o hyd i garreg, tua maint dwrn, yn dwyn ffurf asgwrn fertebra anifail. Fe'i cafodd ar ben wal wrth ymyl ei dŷ ger llwybr cyhoeddus fel petai rhyw gerddwr anghofus wedi ei adael yno. Cymerodd fy nghyfaill mai rhyw fath o ffosil ydoedd ac mi a'i danfonodd i'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain am farn arbenigol. Ymhen hir a hwyr daeth y garreg yn ôl drwy'r post, wedi ei labelu'n daclus fel hyn: *Group: REPTILIA, Name: Ichthyosaur (part of a bone from the lower back), Age: Jurassic - Cretaceous?, Determined by Nat. Hist. Mus. Dept. of Palaeontology: SDC.* Doedd yr Amgueddfa ddim eisiau cadw'r ffosil gan nad oedd modd bellach gwybod o ble yn union y daeth i'r fei yn wreiddiol o'r graig.


Roedd yr ichthyosoriaid, neu'r pysgymlysgiaid, yn byw yn y cyfnodau a nodwyd uchod rhwng 90 a 230 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Diflanasant o fyd y rhai byw ychydig cyn difodiant y deinasoriaid. Efallai y gwyddoch nad oes creigiau Cretasaidd - y rhai y cyfeiriodd yr amgueddfa atynt - yng Nghymru o gwbl. Mae 'na greigiau Jiwrasig ond ar hyd arfordir y de mae rheiny, ymhell iawn o Gae Caled, Waunfawr, man canfod y ffosil. O ble tybed y daeth - dirgelwch!

Addasiad o erthygl a ymddangosodd yn y Cymro yn 2007.

Gwefan ddifyr - http://www.lymeregis.com/ichthyosaur_find/



Y ffosil dirgel - sut daeth y maen i'r wal?



Pysgymlysgiad yr Oes Jiwrasig

O Din y Fuwch

Cafodd Jean Rohou ei eni yn Plougourvest, Llydaw, yn 1934. Ni wyddai air o Ffrangeg pan aeth i'r ysgol am y tro cyntaf, ac ymhen hir a hwyr ef oedd tyddynwr cyntaf y pentref i fynd i'r brifysgol. Daeth yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Rennes ac yn athrylith ar waith y bardd Racine. Nid anghofiodd ei wreiddiau serch hynny, ac yn 2002 cyhoeddodd gampwaith am ei gefndir cynnar yn y Llydaw dlawd o'r enw *Fils de Ploucs* - neu "Mab i Werin Gaws" - dyn yn syth o din y fuwch. Sarhad Ffrengig ar Lydawr yw galw dyn yn *plouc* - daw y gair o'r *plou* sydd i'w weld o flaen cynifer o enwau pentrefi Llydawig. "Plwyf" yw hwn, a chyn hynny "pleb", sef person cyffredin, plebeaidd. Yn ei lyfr dyrchafodd Rohou y cyflwr plwyfol ymddangosiadol difreintiedig hwn i fod yn destun balchder. Dyma baragraff neu ddau y tybiaf sydd yn werth eu trosi:

J'éprouve d'autant plus de plaisir à revisiter, dans les creux de ma mémoire, les petits trésors sensoriels de mon enfance rurale..... Mae atgofion fy mhentyndod gwledig yn fyrdd yn y cof o hyd: sŵn cawod yn nesáu, sŵn ceffylau liw nos mewn cae o fetys; sŵn pladur â min da arni yn llithro trwy'r gwair, neu drwy feillion, neu wenith - nid yr un sŵn a wnaent. Cofiaf flasau na flesais ers blynyddoedd: y suran wyllt, blodau'r gwyddfïd, gwenith yn yr egin a'i had eto'n ir. Ond mae arogleuon mwy treiddgar hefyd yn swatio yn nghefnau'r cof, fel arogl eithin wedi ei falu, neu sawr gwair ar wahanol adegau o'i brifiant. Synnech mor wahanol yw'r arogleuon hyn - y gwair cyn ei dorri, awr ar ôl ei dorri, diwrnod wedi hynny, a thri diwrnod; ac yna eto o ben y das ar ôl chwe mis. Felly hefyd arogl unigryw'r tail, nid yn gymaint wrth ei garthu'n ffres o'r beudy, ond misoedd wedyn, wrth ei 'daenu ar hyd y caeau, a'r un dim yn wrthun i mi amdano. Cryfach arogl, drewdod yn wir, oedd carn ceffyl ar ôl ei drin a chyn ei ail bedoli -- annymunol ond byth gofiadwy....

...Y caeau, yr eglwys, y fynwent, clochdy pentref Lambader - rhain oedd ein bydysawd ac fe'n ffurfiwyd ganddynt. Roedd pob llain o dir o'n heiddo fel cyfaill, pob un a'i enw, ei maint, ei ffurf a'i gwedd, a pha un ai yn llygad neu yng nghil yr haul y gorweddai. Nid yn unig y caeau chwaith, ond y rhosydd lle treuliwn oriau meithion yn gwarchod y gwartheg. Roedd gennyf lecyn hoff ymhobman. Roedd y caeau mor wahanol i'w gilydd ag yr oedd ystafelloedd ein tŷ. Cefais gysur ynddynt megis ym mrechiau fy mam. Dymchwelwyd ganrifoedd o fywyd i wacter.

Y gludlys mwsoglog

(*moss campion*) ar y llethrau uwchben Llyn Idwal eleni - cynefin eithafol, ac yn esiampl wych o blanhigyn sydd wedi ei addasu i ddygymod a'i leoliad ar glogwyn neu garreg yn llygad yr haul.

(Alan Pritchard)



L l ê n y C r e i g i a u

Union ganrif yn ôl

MR. R. J. LLOYD-PRICE, of Rhiwlas, Bala, informs me that last year [1908] a pair of Lesser Spotted Woodpeckers (*Dendrocopus minor*) nested in an oak-tree close to his head-keeper's house. They hatched and reared their young..... This is the first recorded instance of the species breeding in North Wales so far to the west as Merioneth, where, indeed, it has hitherto been met with only occasionally Cylchgrawn British Birds Mawrth 1909

2 Mehefin 1908 Still alive in spite of the heat ! It was absolutely roasting yesterday. I sat in the shade of a haystack for a long time reading. It was delightful. It was so light last night that I could read easily at 1030... I want to get cool

cerdyn post efo marc post Abergele a llun Castell Caernarfon

2 Mehefin 1908 Cafodd 33°C ei gofnodi yn Dumfries.. dilynnodd ddau Orffennaf oeraidd iawn

Bob Pritchard, Papur Newydd y Guardian: *Weatherwatch*

6 Mehefin 1908...it looks very dull this morning & cooler, the heat was intense

Cerdyn Post o Lanfairfechan

Traed Moch ym Mochras

Cawsom wyntoedd cryf iawn o'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain tua diwedd mis Mai. Cysylltodd Huw Holland Jones yn syth gyda'i sylwadau:

Just seen the devastation caused to the tents at Shell Island (Mochras) on Sunday night [25 Mai 2008]. It was the same wind we had [yn Waunfawr], but much, much stronger, I suspect it is owing to the location of Shell Island to the west of the Rhinogydd. Something very similar (but even more powerful) happened to Sheffield on 16 Feb 1962, the city was devastated by an 80mph gale that destroyed or damaged 100,000 buildings.

Dyma ysgrifennodd Huw yn ei ddyddiadur ar y pryd:

"Sheffield lies in the lee of the Pennines and fell prey to a freak set of conditions that February night. A north-west Atlantic gale becomes trapped, passing over the Pennines, beneath warmer air above it (a temperature inversion). Unable to rise and dissipate, the north-westerly bounces down, then back up, then down again, held down by the lid of warm air. The resulting vertical wave motion compresses the air, doubling its speed. For the Pennines read Rhinogydd, for a north-westerly read north-easterly, & that's what happened at Shell Island Sunday night.



"Ynys" Mochras - gyda'i holl garafannau a phebyll. Pwy fasa'n meddwl mai Gwarchodfa Natur Genedlaethol yw hon?

Cerrig Arysgrifenedig yng Nghymru (Ifor Williams)

Ar hyd a lled Cymru, mae hen gerrig beddi yn dyddio'n ôl bron i ddwy fil o flynyddoedd, yn cyfeirio at enwau'r ymadawedig ac weithiau eu crefftau. Mae un o'r rhai mwyaf adnabyddus i'w cael ger traeth y Foryd yn Llanfaglan, sydd a defnydd tra gwahanol iddi heddiw. Mae'n cael ei defnyddio fel lintel uwchben drws yr 'Hen Eglwys' neu eglwys Sant Baglan (gweler y llun ar y dudalen flaen).

Ar y garreg yma mae'r ysgrifen *FILI LOVERNII ANATEMORI*, sef "[maen] Anatemorus fab Lovernius". Mae'r gair Anatemorus yn dod o'r hen air Celtaidd Anatiomarus (ystyr *anatio* yw enaid a *maros* yw mawr, felly *eneidfawr*). (Diolch i'r Athro Gwyn Thomas) Ffurf ar y gair Cymraeg Llywern ydi *Lovernius* (y modd genidol yw *Lovernii*) a'i ystyr yw llwynog. Mae gair tebyg i hwn i'w gael hyd heddiw yn y Llydaweg a'r Gernyweg, sef *Louarn*, llwynog.

Nid oes neb yn sicr o ble daeth y garreg i Lanfaglan, gan nad yw hi'n garreg leol, ond mae yna waith ymchwil cenedlaethol yn mynd ymlaen i edrych i mewn i'r cerrig hyn ar hyn o bryd.

Tra ar daith Cymdeithas Edward Llwyd dan arweiniad Hywel Madog, ar y 17 Ebrill, cawsom weld carreg arysgrifenedig arall yng Nghesail Gyfarch, Penmorfa.

FILI CVNALIPI CUNACI [HIC] IACIT BECCVRI



Llun Tom Jones Golan

Yma gorweddai Bicior*, mab Cynllib mab Cynog. (*yn ôl Syr John Rhys)

Llythyr gan Harri Thomas.

Ynglŷn a'r eos [Eosiad Gwlad y Gân: rhifyn 5] mae'n ddiddorol mai Cae'r Eos oedd enw cartref Dic Aberdaron. Petai un o'i gathod wedi cael gafael yn y deryn fydda yna fawr ar ôl.

Yn fwy difrifol fe sylwais fwy nag unwaith rhyw chwe wythnos yn ôl ar sawl cae gwair a gweld barcud coch yn hedfan yn isel pan oedd y peiriannau yn gweithio ar y cynhaeaf. Mi ryda ni wedi mynd i feddwl am y deryn fel un ysglyfaethus ac yn gwneud dim ond bwydo ar gelanedd. Mi welais hyn gyntaf sawl blwyddyn yn ôl bellach ar y ffin rhwng yr Almaen a Gwlad Belg lle roedd yr aderyn yn hollol gartrefol gyda'r peiriannau a neb o'r ffermwyr yn gwneud dim sylw ohonynt. Hel pryfed oedd y barcud yn siŵr a beth yr hoffwn i wybod ydi, a yw'r aderyn yn dychwelyd yn ôl i'w hen ffordd o hel bwyd? Hyd eleni welais i ddim ohono yn dilyn peiriannau mor ddof ond efallai mai fy mai i ydi hynna. Tybed a yw'r arferiad yma yn un newydd yng Nghymru a'i fod yn dychwelyd at ei ffordd gynhenid o hel ei damaid fel y mae'r rhywogaeth yn lledu i ardaloedd llawr gwlad?